




### Trafod cynnydd eich plentyn

Dyma nodyn i'ch hatgoffa am brynhawniau dydd Llun a Mawrth nesaf, sef y $19^{eg}$ a'r $20^{fed}$ o Hydref, sy'n gyfle i rieni a gwarcheidwaid i ddod i drafod cynnydd eu plant gyda staff yr ysgol. Byddwch eisoes wedi derbyn dolen i MS Bookings i drefnu eich amser. Bydd y ddolen yn dod i ben fore dydd Llun.

### *Discussing your child's progress*

*A reminder that on the afternoons of Monday and Tuesday, the $19^{th}$ and $20^{th}$ of October, the school will be open for parents and guardians to come and discuss their children's progress with the school staff. You will have already received a link to MS Bookings to arrange a convenient time. The link will expire on Monday morning.*

---



### Parchu cônau yr ardal adeiladu

Mi sylwch fod yr adeilad newydd yn codi'n gyflym! Mae'r adeiladwyr yn gofyn yn garedig i bawb sy'n parcio draw ger mynedfa'r safle adeiladu i barchu'r cônau sy'n cael eu defnyddio yno, ac i beidio eu symud. Yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf mi fydd loriau hir yn cyrraedd y safle yn gyson er mwyn cludo'r waliau mawr felly mae cadw mynedfa'r safle yn glir yn angenrheidiol os gwelwch yn dda.

### *Cones around the construction site*

*You will have noticed that the new building is going up quickly! The builders are kindly asking everyone who parks near the entrance to the construction site to respect the cones that have been placed there and not to move them.*
*Over the next week or two, long lorries will be arriving regularly to deliver the large wall panels. It is therefore essential that the entrance to the construction site is always kept clear, please.*

---

TEMPEST
PHOTOGRAPHY

### Neges gan Tempest Photography:

Annwyl Rieni,

A ydych chi wedi archebu eich lluniau ysgol eto? Dyma nodyn atgoffa caredig mai'r dyddiad cau ar gyfer danfon y lluniau i'r ysgol **am ddim yw dydd Mercher, $21^{ain}$ Hydref 2026.**

Gan eich bod wedi derbyn ffurflenni archebu papur, ewch i www.tempest-orders.co.uk i archebu eich lluniau.
Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i archebu eich lluniau, mae croeso i chi gysylltu â Tempest drwy e-bostio Customerservice@htempest.co.uk

### *A message from Tempest Photography:*

*Dear Parents,*

*Have you ordered your school photos yet? A polite reminder that the closing date for **free delivery** back to school is **Wednesday $21^{st}$ October 2026.***

*Since you received paper order forms please visit www.tempest-orders.co.uk*

*If you need any assistance in ordering your photos, feel free to contact Tempest at Customerservice@htempest.co.uk*

---

## Tocynnau Scarlets

Mae dal 4 tocyn ar ôl gan yr ysgol ar gyfer gêm y Scarlets nos fory lawr yn Llanelli yn erbyn y Newcastle Red Bulls. Cic gyntaf am 8 o'r gloch.

Anfonwch neges at Mrs James yn y swyddfa os oes gennych ddiddordeb.
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

## *Scarlets tickets*

*There are still 4 tickets available through the school for tomorrow evening's Scarlets match against Newcastle Red Bulls in Llanelli.*
*Kick-off is at 8:00pm.*

*If you are interested, please contact Mrs James in the school office at*
*swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk*

---



**22/10/2026**

## Disgo Calan Gaeaf

Cofiwch am ddisgos y G.Rh.A fydd yn digwydd ddydd Iau wythnos nesaf yn Neuadd yr ysgol.

**Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2:**
Bydd y disgo yn digwydd yn ystod y prynhawn, o 2:15-3:00yp lle bydd staff yr ysgol yn mynychu gyda'r plant ac yn eu goruchwylio gyda'r criw C.Rh.A. Pris mynediad: £2. Mae croeso iddynt ddod ag arian poced i wario ar fyrbrydau a gêmau os ydynt yn dymuno.
Byrbrydau : 50c - £1; Gêmau : 20c a 50c y tro.

Os yw'r plant am wisgo lan cânt ddod i'r ysgol yn eu gwisgoedd yn barod yn ystod y bore.

**Blynyddoedd 3,4,5a6:**
Disgo ar ôl oriau ysgol, 3:30 – 4:30yp fydd ar gyfer plant hŷn yr ysgol. Does dim angen i rieni fynychu hefyd. Pris mynediad: £4. Mae croeso iddynt ddod ag arian poced i wario ar fyrbrydau os ydynt yn dymuno.
Os yw'r plant am wisgo lan cânt ddod â'u gwisgoedd mewn bag yn barod i newid am 3:15yp ar gyfer y disgo.

## *Halloween Disco*

*A reminder the PTA discos will take place next Thursday in the school hall.*

***Nursery, Reception, Years 1 and 2:***
*The disco will take place during the afternoon, from 2:15–3:00pm. School staff will attend and supervise the children alongside members of the PTA. Admission: £2. They are also welcome to bring pocket money for snacks and games if they wish.*
*Snacks : 50p - £1; Games : 20p and 50p a go.*

*If the children would like to dress up, they are welcome to come to school in their costumes in the morning.*

***Years 3, 4, 5 and 6:***
*The disco for older pupils will take place after school, from 3:30–4:30pm. Parents do not need to attend. Admission: £4. They are also welcome to bring pocket money for snacks if they wish.*
*If the children would like to dress up, they are welcome to bring their costumes in a bag, ready to change into at 3:15pm for the disco.*

---



## Cau ar gyfer gwyliau hanner tymor

Bydd yr ysgol yn cau am 3:30 ddydd Gwener nesaf, Hydref 23ain ar gyfer gwyliau hanner tymor.

Byddwn yn ail-agor ar ddydd Llun, Tachwedd 2ail.

## *Closing for half-term holiday*

*The school will close at 3:30pm next Friday, October 23rd, for the half-term holiday.*

*We will re-open on Monday, November 2nd.*

---



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r 🖰 Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the 🖰 Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

**Dyddiadau pwysig Tymor yr hydref:**

- Nosweithiau Agored : Hydref 19eg ac 20fed
- Disgo Calan Gaeaf : Hydref 22ain
- Diwrnod olaf yr hanner tymor hwn : Hydref 23ain
- Ffair Nadolig y G.Rh.A : Tachwedd 26ain
- Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr 10fed

***Autumn term important dates:***

- *Open Evenings : October 19th and 20th*
- *Halloween Disco : October 22nd*
- *Last day of this half term : October 23rd*
- *PTA Christmas Fayre : November 26th*
- *Christmas concert : December 10th*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**16/10/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru




CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE
Beth Sydd Ymlaen | What's On
Hanner Tymor | Half Term
The MAN Who Wanted to be a PENGUIN
THE HILARIOUS HIGHLY EXPLOSIVE FAMILY SHOW
UTTERLY REVOLTING SCIENCE SHOW
PROTEIN DANCE
The Magic Flute
24/10/26
The Man who Wanted to be a Penguin
29/10/26
The Utterly Revolting Science Show
31/10/26
Sinema | Cinema
Wildwood
Arriety
Forgotten Island
Shaun the Sheep
Sesiynau Celf
Art Sessions
26/09/2026
Terrific Textiles
27/09/2026
Screen Printing
31/10/2026
Autumnal Art
01970 62 32 32
artstaff@aber.ac.uk
aberystwythartscentre.co.uk
@aberystwytharts


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
RHAGLEN ADHD
AR-LEIN / MS TEAMS
CWRS 6 WYTHNOS
Yn dechrau Dydd Mawrth 3ydd Tachwedd
7.00yh-9.00yh
Cwrs 6 wythnos i rieni a gofalwyr plant ag ADHD i ddeall ADHD yn well, dysgu technegau rhianta addas a strategaethau ymdopi ochr yn ochr ag eraill mewn sefyllfaoedd tebyg
Nodwch
• Er mwyn cwrdd a meini prawf y grwp rhaid i fynychwyr fod a phlentyn sydd wedi cael diagnosis ar hyn o bryd neu yn aros am ddiagnosis ADHD.
ADHD
RHAID I CHI GYSYLLTU Â NI I GADW EICH LLE
Ceri - 07794 065 994
Becky - 07866 702 898
Ceri - Ceri.Davies@ceredigion.gov.uk
Becky - Rebecca.Jones@ceredigion.gov.uk
Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Dechrau'n Deg Flying Start


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
ADHD PROGRAMME
ONLINE / MS TEAMS
6 WEEK COURSE
Starts Tuesday 3rd November
7.00pm-9.00pm
A 6-week course for parents and carers of children with ADHD to better understand ADHD, learn suitable parenting techniques and coping strategies alongside others in similar situations
Please note
• Attendees must have a child diagnosed or awaiting a diagnosis to meet the criteria of this group.
ADHD
BOOKING ESSENTIAL
Ceri - 07794 065 994
Becky - 07866 702 898
Ceri - Ceri.Davies@ceredigion.gov.uk
Becky - Rebecca.Jones@ceredigion.gov.uk
Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Dechrau'n Deg Flying Start







@YrYsgolGymraeg
Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
Prifathro / *Headteacher:* Mr Gareth L James
01970 617613